

# Strategaeth Toiledau Lleol

# (Drafft)

# 2024

# Strategaeth Toiledau Lleol 2024 (Drafft)

## Cynnwys

Cefndir ....3

Cyflwyniad ....4

Nod y Strategaeth ....4

Cynllun Toiledau Cymunedol ....5

Lleoedd Newid ....5

Sut mae'r Strategaeth yn cysylltu â chynlluniau eraill ....6

Ymgynghoriad ....7

Adolygu'r Strategaeth ....7

Atodiadau ....8

1. Cynllun Gweithredu ....8

2. Asesiad o Anghenion Strategaeth Toiledau Cyhoeddus Dros Do Cyngor Sir Ddinbych. 9

3. Cwestiynau Cyffredin - ymateb i sylwadau a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad ..**Error! Bookmark not defined.**

# Strategaeth Toiledau Lleol 2024 (Drafft)

## Cefndir

Mabwysiadodd Llywodraeth Cymru Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017(y Ddeddf) yn 2017. Mae'r Ddeddf hon yn cyfuno amrywiaeth o gamau ymarferol ar gyfer diogelu a gwella iechyd.

Mae a wnelo Rhan 8 o'r Ddeddf â darparu toiledau, a strategaethau toiledau lleol yn benodol. Nod y ddeddfwriaeth yn y pen draw yw sicrhau fod pob awdurdod lleol yn asesu'r angen am gyfleusterau cyhoeddus yn y gymuned ac yn arfer dull strategol a thryloyw wrth fodloni'r angen hwnnw.

Mae'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i baratoi a chyhoeddi Strategaeth Toiledau Lleol sy'n gorfod cynnwys asesiad o'r angen am doiledau, yn cynnwys cyfleusterau newid babis a chyfleusterau newid ar gyfer pobl anabl.

Mae'n rhaid i bob Awdurdod Lleol yng Nghymru:

- ✓ Asesu'r angen am ddarpariaeth toiledau ar gyfer eu cymunedau;
- ✓ Cynllunio i ddiwallu'r anghenion hynny;
- ✓ Llunio Strategaeth Toiledau Lleol; ac
- ✓ Adolygu'r strategaeth, diweddaru a rhoi cyhoeddusrwydd i adolygiadau.

DRAFT

# Strategaeth Toiledau Lleol 2024 (Drafft)

## Cyflwyniad

Mae Cyngor Sir Ddinbych, fel pob awdurdod lleol arall yn y DU, yn wynebu cyfnod o bwysau cyllidebol sylweddol a pharhaus ac mae'n bwysicach nac erioed i sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau lleol. Felly, mae'n rhaid i ni newid y ffordd rydym yn darparu rhai gwasanaethau wrth i ni geisio defnyddio ffyrdd mwy creadigol i ddarparu rhai gwasanaethau megis toiledau cyhoeddus.

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn cynnal adolygiad cynhwysfawr o'i gyfleusterau toiledau cyhoeddus i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'n cyllideb bresennol. Mae hon yn broses hirdymor wedi'i hanelu at ddiwallu'r holl anghenion sydd wedi cael eu nodi.

Nid oes gofyniad statudol i awdurdodau lleol ddarparu toiledau cyhoeddus, fodd bynnag, mae'n rhaid i'r Strategaeth Toiledau Lleol ddarparu manylion ynglŷn â sut mae'r awdurdod lleol yn bwriadu diwallu'r anghenion sydd wedi cael eu nodi. Dylai pob awdurdod lleol hefyd ystyried yr holl ddewisiadau sydd ar gael ar gyfer darparu toiledau cyhoeddus trwy ddarpariaeth uniongyrchol neu weithio gyda busnesau preifat i wneud cyfleusterau ar gael i'r cyhoedd.

## Nod y Strategaeth

Nod y strategaeth yw adolygu darpariaeth toiledau lleol ar draws Sir Ddinbych a cheisio sicrhau bod yr angen am doiledau cyhoeddus yn cael ei ddiwallu tra'n aros o fewn cyllideb y cyngor ar gyfer toiledau cyhoeddus.

Er mwyn cyflawni'r strategaeth hon, byddwn yn:

- Nodi'r lefel bresennol o ddarpariaeth o doiledau cyhoeddus;
- Dadansoddi canfyddiadau'r asesiad o anghenion ar gyfer toiledau i'w defnyddio gan y cyhoedd yn eu hardal;
- Canolbwyntio ar ddarparu toiledau cyhoeddus mewn trefi sydd wedi mynegi angen;
- Adolygu'r ffioedd ar gyfer ein toiledau cyhoeddus;

- Adolygu trefniadau gweithredu ac oriau agor ein toiledau cyhoeddus;
- Archwilio dewisiadau ar gyfer trosglwyddo toiledau cyhoeddus presennol sy’n cael eu rhedeg gan y Cyngor i sefydliadau / partneriaid eraill;
- Edrych i hyrwyddo ac ehangu ein Cynllun Toiledau Cymunedol.

Nod y strategaeth hon yw datblygu ar y gwaith a wnaed yn flaenorol ar yr Asesiad o Anghenion Dros Dro a’r adborth a ddarparwyd fel rhan o’r ymgynghoriad cyhoeddus.

Mae’r strategaeth hon yn amlinellu Cynllun Gweithredu i ddangos sut y bydd Cyngor Sir Ddinbych yn gweithio tuag at ddiwallu anghenion y boblogaeth leol o fewn y gyllideb bresennol ar gyfer toiledau cyhoeddus.

Gellir gweld y Cynllun Gweithredu hwn yn Atodiad 1.

## Cynllun Toiledau Cymunedol

Mae’r Cynllun Toiledau Cymunedol (CTC) yn annog busnesau lleol i agor eu cyfleusterau toiledau i’r cyhoedd yn rhad ac am ddim yn ystod eu horiau agor, heb unrhyw ddisgwyliad y bydd defnyddwyr yn prynu nwyddau neu wasanaethau tra’u bod ar y safle. Bydd gofyn i sefydliadau sy’n cymryd rhan gadw eu toiledau yn ddiogel, glân, hygyrch, a chyda stoc dda. Y taliad grant mwyaf yng Nghynllun Toiledau Cymunedol Cyngor Sir Ddinbych ar hyn o bryd yw £500 y flwyddyn. Ar adeg ysgrifennu’r strategaeth hon, mae gan y Cyngor un toiled CTC yn weithredol yn Wharf Tea Room, Llangollen, ond byddwn yn edrych i hyrwyddo ac ehangu’r cynllun hwn ymhellach ar draws y sir fel datrysiad cynaliadwy i ddarpariaeth toiledau.

## Lleoedd Newid

Nid yw toiledau hygyrch safonol yn diwallu anghenion pob person anabl oherwydd efallai y bydd arnynt angen cyfarpar a lle ychwanegol er mwyn iddynt allu defnyddio’r toiledau’n ddiogel ac yn gyfforddus. Caiff yr anghenion hyn eu diwallu gan doiledau Lleoedd Newid sydd â mwy o le a bydd cyfarpar ychwanegol wedi’u gosod ynddynt megis teclynnau codi a symud, byrddau newid oedolion, cawodydd a chanllawiau. Ar hyn o bryd mae Cyngor

Sir Ddinbych yn ymwybodol o 2 doiled Lleoedd Newid yn y sir, gyda rhagor o wybodaeth yn cael ei darparu ar wefan Lleoedd Newid:
Ysbyty Glan Clwyd ac Archfarchnad Tesco Prestatyn

## Sut mae'r Strategaeth yn cysylltu â chynlluniau eraill

### Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017

Mae Rhan 8 o'r Ddeddf - Gwella a Diogelu Iechyd - yn amlinellu dyletswydd yr awdurdod lleol i ddarparu strategaethau lleol sy'n mynd i'r afael â'r ddarpariaeth bresennol o doiledau cyhoeddus a sut fyddwn yn bodloni'r angen am doiledau, gan gynnwys cyfleusterau newid babis a gofodau newid ar gyfer oedolion.

### Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i ddarparu gwasanaethau mewn ffordd gynaliadwy a gweithio i wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy bennu amcanion lles a'u cyhoeddi, a chymryd camau rhesymol i gyflawni'r amcanion hynny.

### Cynllun Corfforaethol Cyngor Sir Ddinbych 2022 – 2027

Mae'r cynllun 5 mlynedd hwn yn amlinellu prif flaenoriaethau'r Cyngor i gefnogi anghenion y dinasyddion sy'n byw, yn gweithio ac yn ymweld â Sir Ddinbych. Mae'r argymhellion yn y strategaeth yn cyfrannu at:

- Sir Ddinbych lewyrchus: cefnogi twf economaidd
- Sir Ddinbych iachach, hapusach a gofalgar: Helpu pobl i fyw'n annibynnol gan ddarparu cefnogaeth

### Cynllun Lles Lleol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych 2023 - 2028

Bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cydweithio er mwyn gwella lles economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol ar gyfer yr ardal leol yng Nghonwy a Sir Ddinbych.

# Strategaeth Toiledau Lleol 2024 (Drafft)

**Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020 – 2024**

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 a Rheoliadau Dyletswyddau Statudol (Cymru) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i bob corff cyhoeddus adolygu a chyhoeddi eu hamcanion cydraddoldeb a'u Cynllun Cydraddoldeb Strategol, ar ôl ystyried data perthnasol ac ymgysylltu â grwpiau sy'n cynrychioli pob un o'r nodweddion gwarchodedig.

## Ymgynghoriad

### Asesiad o Anghenion Dros Dro ar gyfer Toiledau Lleol

Cynhaliwyd adolygiad o anghenion y boblogaeth leol (yn cynnwys cyfleusterau newid babis a chyfleusterau Lleoedd Newid ar gyfer pobl anabl) drwy ymgynghoriad cyhoeddus o 22 Gorffennaf 2024 hyd at 15 Medi 2024.  Cafwyd 1,419 o ymatebion i'r ymgynghoriad.

Fel rhan o'r ymgynghoriad, cynhaliwyd gweithdy ar 29 Hydref 2024 i geisio mireinio'r Asesiad o Anghenion Dros Dro ar gyfer Toiledau Lleol ac roedd cynrychiolwyr o elusennau lleol a chenedlaethol a sefydliadau trydydd sector yn bresennol.

Mae'r asesiad o anghenion wedi nodi bod angen darparu toiledau yng nghanol trefi'r Rhyl, Prestatyn, Dinbych, Rhuthun, Llangollen a Chorwen.

Gellir gweld yr asesiad hwn yn Atodiad 2.

## Adolygu'r Strategaeth

Mae'r Ddeddf yn galw ar awdurdodau lleol i ymgymryd ag adolygiadau rheolaidd o'r strategaeth a darparu adroddiadau cynnydd.  Bydd Cyngor Sir Ddinbych yn adolygu'r Strategaeth Toiledau Lleol o fewn blwyddyn i bob etholiad cyffredin ar gyfer ei ardal.

Gallwn adolygu'r strategaeth ar unrhyw adeg, ac wedi hynny byddwn yn cyhoeddi datganiad o'r camau rydym wedi eu cymryd yn unol â'r strategaeth.  Os byddwn yn penderfynu diwygio'r  yn dilyn adolygiad, byddwn yn cyhoeddi'r strategaeth ddiwygiedig.

# Strategaeth Toiledau Lleol 2024 (Drafft)

## Atodiadau

### 1. Cynllun Gweithredu

Bydd Cyngor Sir Ddinbych yn:

| Rhif | Amcan | Targed |
|---|---|---|
| 1. | Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal i ddarparu gwasanaethau a chyfleusterau priodol, hygyrch ac effeithiol i bob rhan o'r gymuned ynghyd ag ymwelwyr i Sir Ddinbych, heb ragfarnu. | Parhaus |
| 2. | Adolygu'r ddarpariaeth bresennol mewn trefi lle nad oes angen wedi'i nodi ar gyfer cyfleusterau toiledau. | Mawrth 2025 |
| 3. | Mewn trefi lle nodir angen am gyfleusterau toiledau, adolygu'r ddarpariaeth bresennol a monitro gweithrediadau glanhau/oriau agor i sicrhau y ceir y ddarpariaeth fwyaf effeithiol ac effeithlon. | Mawrth 2025 |
| 4. | Archwilio dewisiadau gyda Chynghorau Tref, Dinas a Chymuned os oes diddordeb mewn modelau cyflawni amgen neu gyfraniadau tuag at ariannu costau darparu cyfleusterau toiled. | Mawrth 2025 |
| 5. | Adolygu'r strwythur codi tâl ar gyfer defnydd i sicrhau bod digon o refeniw i ddarparu rhywfaint o gyfleusterau toiledau lle caiff angen ei fynegi, o fewn y gyllideb sydd ar gael ar gyfer toiledau cyhoeddus. | Mawrth 2025 |
| 6. | Adolygu cyfleoedd am gyllid grant i uwchraddio rhai cyfleusterau er mwyn gallu cynnig taliadau di-gyswllt i osgoi'r angen i orfod dod o hyd i'r arian parod cywir. | Mawrth 2026 |
| 7. | Adolygu cyfleoedd ariannu a hyrwyddo gyda sefydliadau partner i ddarparu cyfleusterau Lleoedd Newid ychwanegol yn Sir Ddinbych. | Mawrth 2026 |
| 8. | Adolygu'r ddarpariaeth bresennol o fewn yr holl adeiladau sy'n eiddo i'r Cyngor, yn cynnwys llyfrgelloedd, er mwyn i'r ddarpariaeth fod ar gael i'r cyhoedd. | Mawrth 2025 |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| 9. | Ymgysylltu â chyrff cyhoeddus eraill megis darparwyr gofal iechyd i weld os y gellir gwneud y ddarpariaeth bresennol ar gael at ddefnydd y cyhoedd. | Mawrth 2025 |
| 10. | Hyrwyddo'r Cynllun Toiledau Cymunedol, i wneud cyfleusterau toiledau ar gael yn y mannau sydd eu hangen fwyaf drwy gyllideb wedi'i neilltuo. | Ionawr 2025 - Mawrth 2027 |
| 11. | Parhau i weithio gyda Heddlu Gogledd Cymru, preswylwyr a grwpiau cymunedol i sicrhau bod cyfleusterau mor ddiogel â phosibl wrth leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol. | Ionawr 2025 - Mawrth 2027 |
| 12. | Archwilio gwelliannau a dewisiadau amgen ar gyfer cyflwyno nodweddion sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd a sicrhau y rhoddir ystyriaeth i ddatblygiad ac ynni cynaliadwy. | Ionawr 2025 - Mawrth 2027 |
| 13. | Gwella ymwybyddiaeth a'r wybodaeth sydd ar gael am ddarpariaeth toiledau yn Sir Ddinbych drwy sicrhau bod toiledau cyhoeddus wedi'u harwyddo'n gywir. Sicrhau bod y wybodaeth hon yn gywir ar ein gwefan ac archwilio cynlluniau mapio eraill i hyrwyddo darpariaeth Sir Ddinbych a darpariaethau eraill sydd hefyd ar gael i'r cyhoedd. | Ionawr 2025 - Mawrth 2027 |

* Nodir camau 8, 9 a 10 i adolygu a darparu opsiynau rhad ac am ddim i'w defnyddio.

## 2. Asesiad o Anghenion Strategaeth Toiledau Cyhoeddus Dros Do Cyngor Sir Ddinbych

PDF

Cyngor Sir Ddinbych - Asesiad o Anghenior

DRAFT